**THE COLOUR OF ALL THINGS CONSTANT GAN CASSIE KINOSHI**

CYNLLUN GWERSI I'R DOSBARTH CYNRADD gan Andrea Price

GWYLIO'R FFILM | GWRANDO AR Y SAIN

Ar gyfer:

- Cwricwlwm Cenedlaethol **LLOEGR** (CA2)
- Cwricwlwm i **GYMRU**: Y Celfyddydau Mynegiannol (Cam Dilyniant 3)
- Cwricwlwm Rhagoriaeth **YR ALBAN** (Ail Lefel)
- Cwricwlwm Cynradd **GOGLEDD IWERDDON** (CA2)

*Cefndir*

**Y cyfansoddwr:** **CASSIE KINOSHI**

- Mae Cassie Kinoshi yn sacsoffonydd, cyfansoddwr a threfnydd.
- Cafodd ei henwebu am Wobr Mercury yn 2019 ac yn 2018 enillodd Wobr Academi yr Ivors yn y categori *Cyfansoddiad Jazz Gorau ar gyfer Ensemble Mawr*.
- Fel arweinydd band, mae Cassie yn cyfansoddi ac yn perfformio gyda'i hensemble deg darn *seed,* sy'n cynnwys llawer o gerddorion byrfyfyr gorau Llundain.
- Graddiodd mewn cyfansoddi yn y Trinity Laban Conservatoire of Music and Dance, lle bu'n astudio gydag Andrew Poppy a Stephen Montague.
- Mae hi wedi cael ei chomisiynu gan y London Symphony Orchestra, London Sinfonietta, London Contemporary Orchestra, Manchester Camerata ymysg eraill.

**Y gerddoriaeth:** **THE COLOUR OF ALL THINGS CONSTANT**

- Ysgrifennwyd y gerddoriaeth ar gyfer côr a cherddorfa.
- Daw'r geiriau o gerdd o'r enw Kindness, gan y bardd Belinda Zhawi, a anwyd yn Zimbabwe. Mae Zhawi yn ei disgrifio'i hun fel *artist*

© BBC 2024

*sain*, gan y bydd hi'n aml yn creu cyfeiliant cerddorol neu seinluniau ar gyfer ei cherddi.

- Mae'r gerdd yn disgrifio caredigrwydd fel un peth cyson ynghanol anhrefn. Mae'r gerddoriaeth yn cyfleu hyn yn glyfar trwy greu eiliadau cyferbyniol o brysurdeb a llonyddwch, wedi'u canoli o gwmpas un nodyn a glywir drwy'r rhan fwyaf o'r darn - y nodyn G.
- Defnyddir y gerddorfa mewn ffyrdd lliwgar iawn – gwyliwch am yr offerynnau taro diddorol, gwrandewch ar sain hardd y delyn, a rhyfeddwch at yr amrywiaeth o dechnegau ac effeithiau y mae Cassie'n eu cyflawni gyda'r offerynnau llinynnol, chwythbrennau a phres.

*Canlyniadau dysgu*

*Bydd dysgwyr yn:*

- Ymgysylltu â gwaith cyfoes ar gyfer corws Soprano, Alto, Tenor a Bas (SATB) a cherddorfa
- Gwneud cysylltiadau rhwng sain a symud, lliw ac emosiwn
- Mynegi eu hunain drwy fyrfyfyrio a chyfansoddi ymatebion i'r darn

*Adnoddau sydd eu hangen:*

- Gwrthrychau lliw (cymysg) / ffabrig lliw
- Lle mawr i symud mewn ymateb i'r gerddoriaeth
- Sgarffiau neu ffabrig lliwgar, rhubanau, papur ar gyfer dawnsio / i'w chwifio gyda'r gerddoriaeth
- Offerynnau taro traw a di-draw yr ystafell ddosbarth
- Pethau metelaidd fel allweddi, clychau gwynt, neu wrthrychau metel diogel ar gyfer arbrofion sain
- Cregyn a gwrthrychau pren neu wag ar gyfer arbrofion sain

*Rhestr wirio'r cwricwlwm*

**Cwricwlwm Cenedlaethol LLOEGR** (CA2)

- Chwarae a pherfformio fel unawdydd ac mewn ensemble, gan ddefnyddio eu lleisiau a chwarae offerynnau cerdd gyda chywirdeb, rhugldder, rheolaeth a mynegiant cynyddol.
- Chwarae'n fyrfyfyr a chyfansoddi cerddoriaeth at amrywiaeth o ddibenion gan ddefnyddio dimensiynau cydberthynol cerddoriaeth.

© BBC 2024

- Gwrando gan roi sylw i fanylion a dwyn i gof synau gyda chof clust cynyddol.

**Cwricwlwm Rhagoriaeth YR ALBAN (Ail Lefel)**

- Adnabod amrywiaeth o arddulliau cerddorol a nodi rhai o’r prif offerynnau yn y genre.
- Defnyddio llais, offerynnau a thechnoleg i greu cerddoriaeth, arbrofi gydag ansawdd.
- Perfformio ar offerynnau, yn unigol neu fel rhan o grŵp, i gyfathrebu naws a chymeriad darn o gerddoriaeth.

**Cwricwlwm i GYMRU: Y Celfyddydau Mynegiannol (Cam Dilyniant 3)**

- Rwy’n gallu archwilio a disgrifio sut mae artistiaid a gwaith creadigol yn cyfleu naws, teimladau a syniadau a’r effaith maen nhw’n ei chael ar gynulleidfa.
- Rwy’n gallu myfyrio ar y ffordd y mae artistiaid wedi llwyddo i greu effeithiau neu gyfleu hwyliau, emosiynau a syniadau yn eu gwaith.
- Rwy’n gallu adnabod ac ymateb yn greadigol i heriau, a gwneud hyn gyda gwytnwch a hyblygrwydd.

**Cwricwlwm Cynradd GOGLEDD IWERDDON (CA2)**

- Gweithio’n greadigol gyda sain drwy greu straeon, lluniau, patrymau, sgyrsiau a chyfeiliannau cerddorol.
- Canu a pherfformio gydag offerynnau syml o’r cof, o’r glust neu o nodiant i ddatblygu sgiliau lleisiol ac offerynnol.

*Y gwersi yn gryno*

Mae’r cynllun gwaith hwn wedi’i drefnu dros bedair gwers. Mae croeso i chi ei addasu i weddu i’ch plant a’r amser/adnoddau sydd gennych ar gael.

***GWERS 1:***

| | |
|---|---|
| Gweithgareddau: | Gwrando’n weithredol ar y gerddoriaeth<br>Chwarae gemau cerddoriaeth a symud i gysylltu sain a siâp |
| Bwriad dysgu: | Sylwi ar nodweddion y gerddoriaeth a defnyddio geirfa gerddorol mewn trafodaeth |

© BBC 2024

Gwneud cysylltiadau rhwng sain a lliw, symudiad a siâp

***GWERS 2:***

Gweithgareddau:

Dewis ansoddau (*timbres*) priodol i gynrychioli agweddau ar natur

Creu seinluniau cerddorol gan ddefnyddio'r ansoddau a ddewiswyd

Bwriad dysgu:

Archwilio ansawdd (*timbre*) a'r cysylltiad rhwng sain a natur

Arbrofi gyda gwead a chryfder sain trwy fyrfyfyrio mewn grŵp

***GWERS 3:***

Gweithgareddau:

Ysgrifennu cerddi caredigrwydd

Creu cyfeiliant cerddorol i'r cerddi

Bwriad dysgu:

Byrfyfyrio ostinato gan ddefnyddio offerynnau taro traw

Ystyried gwead a chryfder sain wrth gyfeilio i ddarllenydd

***GWERS 4:***

Gweithgareddau:

Perfformio'r seinluniau a'r cerddi

Mynd yn ôl at y darn a gwella ar y drafodaeth o Gwers 1

Bwriad dysgu:

Perfformio fel rhan o grŵp, gan fynegi hwyliau a chymeriad

Myfyrio ar sut mae artistiaid yn cyfathrebu hwyliau, teimladau a syniadau

© BBC 2024

# GWERS 1

*Cysylltu cerddoriaeth â lliw, symudiad a siâp*

*Bwriad dysgu*

- Sylwi ar nodweddion y gerddoriaeth a defnyddio geirfa gerddorol mewn trafodaeth
- Gwneud cysylltiadau rhwng sain a lliw, symudiad a siâp

1. **Paratoi eich dosbarth**
   Esboniwch i'r dosbarth eich bod yn mynd i ddechrau prosiect cerddoriaeth sy'n canolbwyntio ar ddarn newydd sbon o gerddoriaeth gan Cassie Kinoshi, cyfansoddwr Prydeinig sydd wedi ysgrifennu'r darn yma o gerddoriaeth yn arbennig ar gyfer y prosiect cyffrous hwn! Enw'r darn yw "the colour of all things constant". Mae'r darn yn defnyddio cerddorfa a chôr, ac mae'r geiriau wedi'u hysgrifennu gan Belinda Zhawi. Enw'r gerdd yw "Kindness". Dewch inni ddarllen ac archwilio'r gerdd:

## Kindness

– that silent friend who listens
before pulling you away.
A portal the colour of all things constant –
grass, sky, sunshine.

All things good: trees, rain, ocean.

That act of magic, holds us together
with nothing but fingertips.

Ask the cracked land how kindness sounds
in these times of rains that have not come.

In this drought of empathy,
kindness emerges, crystal clear.
In the solidarity of a protest march,
the gentle touch in a strangers' eyes.

Kindness – a bridge across chasms,
for the land that holds you each day.
Thread of light, winking through chaos.

Mae dwy thema bwysig yn y gerdd hon. Caredigrwydd ydi un, ac mae a wnelo'r llall â natur. Allwch chi ganfod unrhyw eiriau yn y gerdd sy'n ymwneud â charedigrwydd? Allwch chi ganfod geiriau yn y gerdd sy'n ymwneud â natur?

Allwch chi wneud unrhyw gysylltiadau rhwng caredigrwydd a natur?

© BBC 2024

Gwyliwch y ffilm ac fel dosbarth, trafodwch hi. Dyma awgrymiadau am gwestiynau:

**Awgrymiadau am Gwestiynau:**

a. Ydych chi'n cofio pa offerynnau mae Cassie'n gallu eu chwarae?
b. Ydych chi'n cofio beth mae Cassie'n ei fwynhau am chwarae a chyfansoddi cerddoriaeth?
c. Ydych chi'n cofio sut mae Cassie'n mynd ati i ysgrifennu cerddoriaeth?
d. Pa bethau diddorol sylwoch chi am y darn oedd yn cael ei recordio?

2. **Esboniwch** eich bod yn mynd i wrando ar y gerddoriaeth, a gweld a allwch chi ddod o hyd i gysylltiadau rhwng sain, lliw a gwead (dwysedd). Gellir gwneud y gweithgaredd hwn mewn gwahanol ffyrdd. Dechreuwch drwy wrando ar ddarnau bach o'r gerddoriaeth, ac ymarferwch ddisgrifio sut mae'r gerddoriaeth yn teimlo:

**Awgrymiadau am Gwestiynau:**

a. Gall y gerddoriaeth deimlo'n sionc pan fo'r **traw yn uchel**, neu mewn **cywair mwyaf** llon. Gall y gerddoriaeth deimlo'n dywyll pan fo'r **traw yn isel**, neu pan fydd y gerddoriaeth mewn **cywair lleiaf** mwy lleddf. Allwch chi benderfynu os yw'r gerddoriaeth yn teimlo'n llon, yn lleddf, neu rywle yn y canol?

b. Gall y gerddoriaeth deimlo'n brysur (gallwch ddefnyddio'r term **gwead** – sy'n disgrifio pa mor 'drwchus'/dwys, neu 'denau'/gwag yw'r sain h.y. pa mor brysur yw'r sain). Allwch chi benderfynu a yw'r gerddoriaeth yn swnio a) yn drwchus neu'n denau, a b) yn teimlo'n brysur, yn wag, neu rywle yn y canol?


3. **Nawr gwrandewch** ar y darn cyfan o gerddoriaeth, a dangoswch sioncrwydd a gwead (dwysedd) y gerddoriaeth trwy ryngweithio â gwrthrychau lliw yn yr ystafell. Gellir gwneud y gweithgaredd hwn mewn sawl ffordd wahanol:

a. Cael pethau o wahanol liwiau mewn gwahanol feintiau, pwysau, a gweadau (papur / rhubanau / peli / pethau eraill) ar fyrddau neu ar y llawr y gall y plant ddewis pa rai i'w cyffwrdd neu afael ynddynt mewn ymateb i wahanol rannau o'r gerddoriaeth.

b. Ffabrigau lliw gwahanol y gall y plant afael ynddynt mewn ymateb i wahanol rannau o'r gerddoriaeth, gan gasglu mwy o'r lliw pan fydd y dwysedd yn teimlo'n gryfach/y gwead yn teimlo'n 'fwy trwchus'.

© BBC 2024

4. **Symudwch i le mwy,** neu cliriwch le yn yr ystafell ddosbarth. Nawr rydych chi'n mynd i wrando ar y gerddoriaeth eto, a gweld a fedrwch chi ganfod cysylltiadau rhwng sain, symudiad a siâp. Gan ddefnyddio sgarffiau jyglo/dawns neu rubanau fel propiau, symudwch mewn ymateb i'r gerddoriaeth. Gadewch i'r plant symud yn rhydd i ddechrau ac yna tywyswch nhw tuag at rai symudiadau 'cytunedig'. Dyma rai symudiadau a awgrymir fel ymateb i sioncrwydd a gwead y gerddoriaeth:




5. **Cymerwch hoe dawel** ar ddiwedd y sesiwn, a gofynnwch i'r plant gymryd eu tro i fod y "ffrind tawel sy'n gwrando" tra bod myfyriwr arall yn disgrifio sut roedd y gerddoriaeth yn teimlo.

© BBC 2024

# GWERS 2

*Cysylltu cerddoriaeth â lliw a natur*

*Bwriad dysgu*

- Archwilio ansawdd a'r cysylltiad rhwng sain a natur
- Arbrofi gyda gwead a chryfder sain trwy fyrfyfyrio mewn grŵp

1. **Ewch yn ôl** at y gweithgaredd dawnsio sgarff o'r sesiwn flaenorol a'i ddatblygu ymhellach. Ar ôl arbrofi i'r gerddoriaeth am sbel, gofynnwch am wirfoddolwr i fod yn gyfarwyddwr. Dylai'r cyfarwyddwr wneud dewisiadau ynghylch gwead (prysurdeb) trwy ofyn i fyfyrwyr eraill ddechrau neu atal eu dewis symudiadau, gan ddefnyddio ystum corfforol cytunedig (yn hytrach na siarad). Esboniwch y caiff y sgil cyfarwyddo hwn ei ddefnyddio eto yn ddiweddarach yn ystod gwaith grŵp. Gellir ailadrodd y gweithgaredd hwn sawl gwaith i annog mwy o wirfoddolwyr. Un ffordd o ymestyn y gweithgaredd fyddai rhannu'n grwpiau llai a chael sawl cyfarwyddwr ar yr un pryd.

2. **Ewch yn ôl** at y gerdd a chanolbwyntio ar y geiriau am natur. Gofynnwch i'r myfyrwyr feddwl am liwiau a fyddai'n gweddu i'r gwahanol eiriau natur yn y gerdd.

   Dyma awgrym o sut y gellid categoreiddio'r geiriau natur yn lliwiau:

| Gwyrdd | Glas | Euraidd |
|---|---|---|
| Grass<br>Trees | Rain<br>Ocean<br>Sky | Sunshine<br>Light<br>Crystal<br>Sky |

3. **Esboniwch** eich bod yn mynd i greu seinluniau natur gan ddefnyddio offerynnau taro a gwrthrychau a geir ym myd natur. Bydd Belinda Zhawi yn aml yn creu seinluniau i fynd gyda'i cherddi. Rydych chi'n mynd i greu seinluniau i weddu i'r geiriau natur yng ngherdd Belinda. Gallai athrawon baratoi ar gyfer y sesiwn hon ymlaen llaw drwy annog myfyrwyr i gasglu eitemau cysylltiedig â natur a dod â nhw i mewn.

   Dyma rai gwrthrychau a fyddai'n effeithiol fel rhan o seinlun natur o'u defnyddio ochr yn ochr ag offerynnau taro traw a di-draw:

   **Grŵp gwyrdd** - prennau pren gwag, cnau coco, bambŵ, ffyn ratan/cyrs i'w hysgwyd

   **Grŵp glas** - siglwyr / ffyn glaw / drymiau môr wedi'u llenwi â ffa/ffacbys. Cregyn.

   **Grŵp euraidd** - pethau metelaidd (allweddi / potiau metel ac ati)

© BBC 2024

4. **Rhannwch y dosbarth** yn dri neu chwe grŵp a rhoi lliw i bob grŵp. Rhowch ddetholiad o offerynnau taro a 'synau hapgael' (seiniau wedi'u darganfod ar hap) i bob grŵp, i weddu i'w lliw. Dylai'r grwpiau arbrofi gyda'u hofferynnau a'u 'synau hapgael', er mwyn creu seinlun cerddorol sy'n gweddu i'w lliw.

   Dylai un myfyriwr ym mhob grŵp beidio chwarae offeryn (gall pawb gymryd eu tro), ac ymgymryd â rôl y cyfarwyddwr. Atgoffwch y myfyrwyr mai rôl y cyfarwyddwr yw defnyddio ystum corfforol cytunedig i ysgogi a thewi unigolion a'r grŵp cyfan, a dewis ystum i ddangos y dylai'r myfyrwyr chwarae mewn ffordd fwy neu lai prysur. Gallai'r cyfarwyddwyr ddefnyddio sgarff i helpu i roi cyfarwyddiadau (gallai hyn fod yn help i rai plant ac yn rhwystr i eraill).

5. **Dewch â'r dosbarth yn ôl at ei gilydd** a gwrandewch ar eu harbrofion seinlun. Gofynnwch i weddill y dosbarth wrando'n astud, gwylio'r cyfarwyddwyr yn ofalus, a rhoi adborth. Gofynnwch am sylwadau cadarnhaol, a sylwadau defnyddiol y gallai grwpiau eu defnyddio i wella'u gwaith ymhellach.

© BBC 2024

# GWERS 3

*Cysylltu cerddoriaeth a barddoniaeth*

*Bwriad dysgu*

- Byrfyfyrio ostinatos gan ddefnyddio offerynnau taro traw
- Ystyried gwead a chryfder sain wrth gyfeilio i ddarllenydd

**1. Cyn y wers.**

Bydd angen i fyfyrwyr gael cerddi i'w darllen gyda'u cyfeiliannau ar gyfer y wers hon. Gallent ddefnyddio cerddi sy'n bodoli am liwiau, caredigrwydd, a/neu natur, neu dreulio peth amser yn gweithio ar gerddi "lliw caredigrwydd" cyn y wers. Dyma enghraifft o sut y gellid strwythuro cerdd "lliw caredigrwydd":

*Glas yw lliw caredigrwydd*

*Y blanced las feddal a ddefnyddir i lapio'r babi*

*Y clychau glas sy'n rhoi lloches i'r pryfed a'r gwenyn*

*Y saffir glas y mae fy nain yn ei wisgo*

*Ein planed glas fregus, sydd angen ein gofal mor daer*

*Glas yw lliw caredigrwydd*

**2. Paratowch** ar gyfer dysgu drwy wylio'r perfformiad o "the colour of all things constant". Yn ystod y perfformiad, meddyliwch am yr arbrofion ar sain rydych chi wedi'u gwneud hyd yn hyn. Ewch yn ôl dros themâu caredigrwydd, lliw, a natur a geir yng ngeiriau'r gerdd ac a fynegir yn y gerddoriaeth, a thrafodwch.

**3. Gwyliwch** ran o'r perfformiad eto, a'r tro hwn canolbwyntiwch ar yr offerynnau a'r lleisiau y gallwch eu gweld a'u clywed. Faint o offerynnau allwch chi eu henwi?

**4. Gwyliwch** ran arall o'r perfformiad, a'r tro hwn canolbwyntiwch ar wead (dwysedd – h.y. pa mor 'drwchus' neu 'denau' yw'r sain) y gerddoriaeth. Rhowch sylw arbennig i adegau pan fydd pawb yn chwarae ar yr un pryd, a phan fydd dim ond ychydig o bobl yn chwarae. Trafodwch sut mae gwead (dwysedd) ac uchder sain (dynameg) y gerddorfa yn newid pan fydd angen i ni glywed y geiriau sy'n cael eu canu gan y côr.

**5. Eglurwch** eich bod, yn y wers hon, yn mynd i greu cyfeiliant cerddorol i ddarlleniad cerdd. Yn "the colour of all things constant", mae Cassie Kinoshi yn creu llawer o liwiau cerddorol gyda'r offerynnau a'r lleisiau, ond mae hi hefyd yn creu ymdeimlad o "all things constant" trwy ddefnyddio un nodyn, y nodyn G, sydd i'w glywed drwy'r rhan fwyaf o'r darn.

© BBC 2024

6. **Rhannwch yn grwpiau**, a dewiswch gerdd (neu gerddi) i bob grŵp weithio gyda nhw. Dylai pob grŵp greu cyfeiliant gan ddefnyddio offerynnau taro traw, ac os oes angen, detholiad o offerynnau di-draw a ‘synau hapgael’ a fyddai’n gweddu i thema’r gerdd. Gallai un neu ddau o’r myfyrwyr ddarllen y gerdd yn lle chwarae offeryn, neu gallai mwy o fyfyrwyr ddarllen llinell yr un yn eu tro. Dylid darllen y gerdd dros ben y gerddoriaeth. Bydd hyn yn helpu myfyrwyr i lefaru’n hyderus wrth siarad yn uchel.

7. **Creu cyfeiliant effeithiol**

Gellir creu sain gyson mewn cerddoriaeth drwy ailadrodd syniadau. **Ostinato** yw’r gair am syniad cerddorol sy’n cael ei ailadrodd dro ar ôl tro. Dyma rai ostinatos y gallwch chi eu hymarfer a’u cyfuno i greu eich cyfeiliant. Cofiwch, mae ostinato yn golygu y dylech chi chwarae’r un syniad dro ar ôl tro. Gallech gyfuno’r syniadau hyn mewn sawl ffordd wahanol, a chreu eich syniadau eich hun gan ddefnyddio’r nodau G – A – B – C – D i fynd gyda nhw.

Am arweiniad ar nodiant, gweler yma.

Examples using the note G




Examples using the notes G and D




Examples using the notes G - A - B - C - D




Ymarferwch chwarae eich cerddoriaeth ar wahanol **ddynameg** (uchder sain). Rhowch gynnig ar chwarae’r gerddoriaeth ar ddynameg uchel ac ar ddynameg dawel. Ar ba ddynameg ddylech chi chwarae pan mae’r gerdd yn cael ei llefaru? Pa ddynameg allech chi ei defnyddio cyn ac ar ôl i’r gerdd gael ei llefaru?

**8. Dewch â’r dosbarth yn ôl at ei gilydd** a pherfformio’r cerddi a’r cyfeiliannau. Gofynnwch i weddill y dosbarth wrando’n ofalus a rhoi adborth. Gofynnwch am sylwadau cadarnhaol, a sylwadau defnyddiol y gallai grwpiau eu defnyddio i wella eu gwaith ymhellach. Ydi’r grwpiau wedi archwilio **dynameg** yn llwyddiannus? Allech chi glywed y **nodyn G** yn cael ei ddefnyddio fel sain gyson yn y cyfeiliant? Allech chi glywed **ostinatos** yn cael eu chwarae?

© BBC 2024

# GWERS 4

*Cysylltu cerddoriaeth a charedigrwydd*

*Bwriad dysgu*

- Perfformio fel rhan o grŵp, gan fynegi hwyliau a chymeriad
- Myfyrio ar sut mae artistiaid yn cyfathrebu hwyliau, teimladau a syniadau

**1. Eglurwch** fod y wers hon yn gyfle i fireinio ac arddangos yr holl waith rydych chi wedi'i wneud ar y prosiect hwn. Dechreuwch drwy ddarllen y gerdd *Kindness* yn uchel, ac atgoffwch y myfyrwyr mai pwrpas y prosiect hwn yw iddyn nhw fynegi eu hunain, a myfyrio ar sut mae pobl eraill yn defnyddio cerddoriaeth i gyfleu teimladau a syniadau.

**2. Treuliwch amser byr yn adolygu** ac yn datblygu'r seinluniau natur, gyda grwpiau'n gweithio ar yr adborth a gawsant yn y wers flaenorol ac yn rhoi cyfle i fwy o gyfarwyddwyr siapio'r gerddoriaeth trwy reoli'r gwead (dwysedd) a'r ddynameg (uchder y sain).

**3. Perfformiwch** y seinluniau i'ch gilydd eto a chanolbwyntiwch ar sylwadau caredig yn unig. Anogwch y myfyrwyr i roi sylwadau ar rôl y cyfarwyddwr yn ogystal â'r gerddoriaeth.

**4. Treuliwch amser byr yn edrych eto** ar y cyfeiliannau i'r cerddi ac yn eu datblygu, gyda grwpiau'n gweithio ar yr adborth a gawsant yn y wers flaenorol ac yn rhoi cyfle i fwy o fyfyrwyr gael darllen eu cerddi'n uchel.

**5. Perfformiwch** y cerddi i gyfeiliant i'ch gilydd eto a chanolbwyntiwch ar sylwadau caredig yn unig. Anogwch y myfyrwyr i roi sylwadau ar y geiriau llafar yn ogystal â'r gerddoriaeth.

**6. Gwrandewch** ar "the colour of all things constant" un waith eto i weld a all y myfyrwyr wella ymhellach ar eu trafodaethau am y gerddoriaeth, gan ddefnyddio geirfa briodol i ddisgrifio offerynnau, traw, gwead, a dynameg.

**7. Gwyliwch** y cyfweliad gyda Cassie Kinoshi un waith eto, a myfyriwch ar beth mae'n ei olygu i fod yn gyfansoddwr. Gan fod y darn yma wedi'i ysgrifennu'n arbennig ar gyfer y prosiect hwn, hwyrach y gallech chi hyd yn oed benderfynu gwneud cerdyn diolch i Cassie a allai gael ei arddangos yn eich ysgol!

© BBC 2024

## CAMAU PELLACH

Gweithgareddau trawsgwricwlaidd

- **LLYTHRENNEDD** – ysgrifennu cerddi am garedigrwydd, lliw, a natur
- **CELF a DYLUNIO** – creu clychau gwynt a drymiau môr allan o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu a'u defnyddio yn y gwersi fel offerynnau taro

### GEIRFA'R TERMAU CERDDOROL A DDEFNYDDIR

| **TERM** | **DIFFINIAD** |
|---|---|
| Arwydd cywair | Hwn sy'n dweud wrthych beth yw'r cyweirnod a pha lonnodau (♯) a meddalnodau (♭) sydd mewn darn o gerddoriaeth – gall darn fod mewn cywair mwyaf neu leiaf |
| Cyfeiliant | Cerddoriaeth sydd â rôl gefnogol |
| Cywair lleiaf | Swnio'n lleddf – gweler yma am enghreifftiau |
| Cywair mwyaf | Swnio'n llon – gweler yma am enghreifftiau |
| Dynameg | Pa mor uchel neu dawel y dylid chwarae darn o gerddoriaeth |
| Gwead | Sut rydyn ni'n cyfuno, cymysgu a haenu synau (pa mor 'drwchus' neu 'denau' yw'r gerddoriaeth, e.e. faint o offerynnau sy'n chwarae, sut maen nhw'n cael eu chwarae ac ati.) |
| Offerynnau taro di-draw | Offerynnau heb draw diffiniedig fel clafiau, castanéts, siglwyr, drymiau llaw ac ati. |
| Offerynnau taro traw | Offerynnau gyda thraw diffiniedig fel glockenspiel, seiloffon, bariau clych ac ati. |
| Ostinato | Rhythm neu alaw sy'n ailadrodd yn gyson |
| Traw | Pa mor uchel neu isel yw sain |

© BBC 2024